

Cyngor Cymuned Pentir

Cynhelir cyfarfod o'r Is Bwyllgor Cyllid nos Fercher 27ain o Ffehefin 2018
yn Swyddfa, Parc Menai am 7.00pm.

Agenda

Presennol

Ymddiheuriadau

Cod Ymddygiad

Cofnodion Cyfarfod diwethaf 30-05-2018

Materion yn codi o'r cofnodion

Adroddiad Ariannol

Ceisiadau Nawdd

Taliadau angen sylw

D W Lewis	Torri gwair Mai a Mehefin
Cyflog	Mis 3 Mai £362.90
HMRC	Mis 3 £90-80
Cyngor Gwynedd Treth NDR	Mehefin
Cyngor Gwynedd Gwastraff Fynwent	2018-19 £244.00

Derbynebion

Ad-daliad NDR o Cyngor Gwynedd

Angladd J A Doxley £90.00 drwy H O Davies ymgwymerwyr

I'w trafod hefyd

Archwylwyr Mewnol

Polisiau - Asesu Risg

- GDPR

Ymateb Gamlins i Gais Clwb Peldroed ieuencid Penrhosgarnedd i Cyngor fod fel Corff Gweinyddu ariannol iddynt

Diweddariad Prydles canolfan Penrhos

Diweddariad Prosiect Ysgol Y Faenol

Prydles y Swyddfa

Cyngor Cymuned Pentir

**Cofnodion cyfarfod o'r Is Bwyllgor Cyllid nos Fercher 30ain o Fai 2018
yn Swyddfa, Parc Menai am 7.00pm.**

Presennol Cyng L James, D Jones-Morris, D W Jones J Pierce a B Jones

Ymddiheuriadau Cyng C E Hughes

Cadeirwyd y cyfarfod gan Cyng L James

Cod Ymddygiad

Dim datgan buddiant

Cofnodion Cyfarfod diwethaf 25-04-2018 – Cynnigwyd eu bod yn gofnod cywir gan Cyng D Jones-Morris a'r Cyng J Pierce yn eilio

Materion yn codi o'r cofnodion

Dim

Adroddiad Ariannol

Dosbarthwyd mantolen ariannol am Mis Mai oedd yn dangos £34,654.04 yn y cyfrif gan fod £1,657 heb eu cyflwyno. **Gwir falans yn £32,997.04.**

Incwm o £25,405 wedi ei dderbyn £25K Praesept a £405 o ddau angladd

Ceisiadau Nawdd

- Bobath - Cais Cenedlaethol

Argymhell peidio cefnogi eleni

Taliadau angen sylw

Cytunwyd talu D W Lewis £650 am dorri gwair Ebrill

Cyflog Clerc Mis 2 Mai £362.90 HMRC Mis 2 £90-80

Cyngor Gwynedd Treth NDR £657 Ebrill a Mai

BHIB Yswiriant wedi dod ar ol i'r Agenda gael ei gyrru Talu £1554.71

Anghenion Swyddfa Stampiau ag Inc £62.15

Cytunwyd talu Cyngor Gwynedd £244.00 unwaith byddai infois yn cyrraedd am wastraff y Fynwent 2018-19

I'w trafod hefyd

Polisiau - Asesu Risg - GDPR – Rheoliadau ariannol

Cytunwyd i'r Clerc a'r Cyng L James a D Jones-Morris gyfarfod i ymdrin a rhain 13eg o Fehefin

Telerau'r Clerc

Cytunwyd i'r Is Bwyllgor Cyllid gyfarfod ½ awr cyn y Cyngor Llawn nesaf ar Fehefin 14eg

Cais Clwb Peldroed ieuencid Penrhosgarnedd i Cyngor Pentir fod fel Corff Gweinyddu ariannol iddynt

Cytunwyd i'r Clerc wneud ymholiadau gyda'r Cyfreithwyr i holi os oedd hyn yn gyfreithiol

Diweddariad Prydles canolfan Penrhos

Cyngor Llawn yn derbyn y drafft oedd Gamlins wedi ei lunio ar ein rhan

Cytunwyd i'r Clerc

Gysylltu a Vernon Oliver o Gamlins i argymhell anfon y Drafft at Cyngor Gwynedd

Diweddariad Prosiect Ysgol Y Faenol

Er fod y Cyngor arbennig gyfarfu ar 17eg o Fai wedi cymeradwyo mynd am opsiwn 4 o'r cynllun 'roedd ambell aelod yn dal yn anghyffyrddus a rhai elfennau o'r prosiect ag yn sgil hynny cytunwyd gwahodd Mr Geraint Owen o Cyngor Gwynedd i gyfarfod dirprwyaeth o'r Cyngor cyn y cyfarfod Polisiau ar y 13eg

Prydles y Swyddfa - Trafodwyd y mater y brydes yma reit fanwl gan fod cynnig gerbron i ni edrych a thrafod os oedd cyfle fan hyn i beidio ei adnewyddu a garbed yr arian tuag at 'gronfa' Datblygu Canolfan Penrhos / Ysgol y Faenol a lleihau y benthyciad fydd ei angen.

Cafwyd cefndir y rhesymeg dros gymeryd y brydles yn y lle cyntaf a'r anhawsterau gafwyd ynglyn a chael gafael ar ddogfennau, ag asedau oedd Cyngor Pentir wedi ei gael yn y gorffennol ynghyd a bellach y gyfraith dan GDPR.

Cytunwyd felly, tra bod manteision ariannol i beidio adnewyddu, argymhell parhau yma gyda opsiynnau i dorri'r brydles gyda dri mis o rybudd ar ol y flwyddyn gyntaf fyddai fwyaf addas.

Daeth y cyfarfod i ben 9.10